

Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr 2018-2019

Hyfforddiant Gorfodol



Hyfforddiant Sefydlu i Lywodraethwyr

Mae'n rhaid i lywodraethwyr newydd eu penodi neu eu hethol, ac eithrio penaethiaid, i fynychu'r hyfforddiant hwn o fewn blwyddyn o'u penodiad neu etholiad.

Mae Llywodraethwyr nad ydynt yn mynychu'r hyfforddiant hwn o fewn y cyfnod penodedig yn cael eu hatal yn awtomatig. Os nad yw'r llywodraethwyr yn cwblhau'r hyfforddiant o fewn cyfnod ataliad o chwe mis, maent yn cael eu gwahardd yn awtomatig rhag parhau mewn swydd fel llywodraethwr.

Mae hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr yn hanfodol os ydynt i ddeall eu rôl a pharamedrau eu cyfrifoldebau.

Bydd yr hyfforddiant sefydlu yn helpu i sicrhau bod llywodraethwyr newydd yn:

- Meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddechrau cyflawni eu rôl yn effeithiol fel llywodraethwr ac i gefnogi eu hysgol wrth godi safonau;
- Ymwybodol o faterion addysg cenedlaethol a lleol a'u heffaith ar gyrff llywodraethu;
- Cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant a'r angen i ddatblygu eu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd eraill sydd ar gael iddynt;
- Datblygu hyder i'w galluogi i gymryd rhan lawn a gweithredol yn rôl y corff llywodraethol.

Bydd yr hyfforddiant hefyd yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer llywodraethu ysgolion yng Nghymru, a bydd yn canolbwyntio ar yr hyn y dylid ei ddisgwyl gan lywodraethwyr wrth fodloni gofynion y gyfraith a chodi safonau a gwella ysgolion. Bydd hefyd yn egluro rôl strategol llywodraethwr a sut mae hyn yn cefnogi ac yn herio gwaith yr ysgol a'r uwch dîm arweinyddiaeth; eu rôl wrth osod polisiau a thargedau a sut y dylai'r rhain gael eu monitro a'u gwerthuso a sut ac i bwy y mae llywodraethwyr yn atebol.



Deall data perfformiad ysgol

Mae'n rhaid i bob llywodraethwr, ac eithrio penaethiaid, fynychu'r hyfforddiant hwn o fewn blwyddyn o'i penodiad.

Mae Llywodraethwyr nad ydynt yn mynychu'r hyfforddiant hwn o fewn y cyfnod penodedig yn cael eu hatal yn awtomatig. Os nad yw'r llywodraethwyr yn cwblhau'r hyfforddiant o fewn cyfnod ataliad o chwe mis, maent yn cael eu gwahardd yn awtomatig rhag parhau mewn swydd fel llywodraethwr.

Mae dealltwriaeth o'r data sy'n ymwneud â'u hysgol yn hanfodol er mwyn i lywodraethwyr gyflawni'n effeithiol eu rolau allweddol o gynllunio strategol, gosod targedau, monitro a gwerthuso ac atebolrwydd.

Bydd hyfforddiant data perfformiad ysgolion yn datblygu dealltwriaeth y llywodraethwyr o'r data sydd bellach yn cael ei ddarparu fel mater o drefn gan ac ar gyfer ysgolion, a sut i ddefnyddio'r data i wella perfformiad ysgolion. Mae gallu dadansoddi data perfformiad yr ysgol a drilio i lawr at y wybodaeth graidd yn galluogi llywodraethwyr i wneud cymariaethau a meincnodi sut mae eu hysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill mewn amgylchiadau tebyg.

Dylai dysgu am ddata'r ysgol a deall yr hyn y mae'n ei olygu ar gyfer yr ysgol a'r hyn sydd angen ei wneud i godi safonau roi hyder i lywodraethwyr i ofyn cwestiynau heriol wrth bennaeth a thîm rheoli yr ysgol er mwyn gwella perfformiad a chyrhaeddiad disgyblion.



Hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion

Mae'n rhaid i Gadeiryddion newydd fynychu'r hyfforddiant hwn o fewn chwe mis o'u penodiad fel Cadeirydd.

Bydd unrhyw Gadeirydd Llywodraethwyr nad yw'n mynychu'r Hyfforddiant i Gadeiryddion o fewn chwe mis o'i benodiad yn gorfod gorffen dal swydd fel Cadeirydd ar unwaith. Os yw'r llywodraethwr hynny'n dymuno sefyll eto i gael ei ethol fel Cadeirydd Llywodraethwyr bydd yn ofynnol iddo gwblhau'r hyfforddiant Cadeirydd cyn y bydd yn gymwys i gael ei ethol yn Gadeirydd.

Bydd yr Hyfforddiant gorfodol ar gyfer Cadeiryddion yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yng Nghymru a bydd yn diffinio'n glir yr hyn a ddisgwylir gan Gadeirydd y llywodraethwyr, gan gynnwys darparu arwain trafodaethau corff llywodraethol ar eu rôl strategol a'u rôl o ran codi perfformiad ysgolion; a gweithredu fel ffrind beirniadol.

Yn benodol, bydd yr hyfforddiant yn:

- Darparu Cadeiryddion â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gyflawni eu rôl yn effeithiol i gefnogi gwella ysgolion, codi safonau perfformiad; sicrhau lles disgyblion a gwella ansawdd yr addysg a ddarperir
- Datblygu a gwella eu dealltwriaeth o rôl Cadeirydd effeithiol wrth arwain y corff llywodraethu;
- Gwella eu hyder a sgiliau arweinyddiaeth a'u gallu i ddatblygu perthynas effeithiol gyda'r pennaeth gan eu galluogi i gynnig her a chymorth i'r ysgol
- Eu darparu nhw ag ymwybyddiaeth o faterion addysgol cenedlaethol a lleol a'u heffaith ar gyrff llywodraethu, a'u helpu i gydnabod pwysigrwydd hyfforddiant a'r angen i ddatblygu eu sgiliau ac anghenion y corff llywodraethu ehangach a manteisio ar gyfleoedd hyfforddi eraill sydd ar gael iddynt.

Mae pobl sy'n anelu at fod yn Gadeiryddion llywodraethwyr neu is-Gadeiryddion llywodraethwyr yn gallu cwblhau hyfforddiant Cadeirydd gorfodol os ydynt yn dymuno. Os yw'r llywodraethwyr hyn yn dod yn Gadeiryddion o fewn dwy flynedd o fynychu'r hyfforddiant, ni fydd yn ofynnol iddynt fynychu'r hyfforddiant eto.

Diogelu

Dylai Llywodraethwyr cyswllt gyda chyfrifoldeb am oruchwylio trefniadau amddiffyn plant a Chadeiryddion cyrff llywodraethu (a allai fod yn y sefyllfa o dderbyn pryderon neu honiadau) fynychu'r hyfforddiant hwn o fewn blwyddyn o'i penodiad, ac yna unwaith bob tair blynedd.

Bydd yr hyfforddiant hwn yn datblygu ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Y fframwaith deddfwriaethol lle mae lles plant yn cael ei ddiogelu a'i hybu;
- Y gweithdrefnau diogelu hanfodol ddylai fod ar waith o fewn yr ysgol;
- Rôl y llywodraethwr cyswllt wrth sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn eu lle ac yn cael eu rhoi ar waith.



Hyfforddiant Sefydlu i Lywodraethwyr

Dyddiad	Lleoliad	Iaith	Amser
02.10.18	Neuadd y Gwendraeth, Heol Cwmmawr, Drefach SA14 7AA	Cymraeg	18:30 - 20:30
14.11.18	Ysgol Gynradd Bryn, Bryn, Llanelli, SA14 9TT	Saesneg	18:30 - 20:30
06.02.19	Canolfan Griffith Jones, San Clêr SA33 4BT	Cymraeg gydag offer cyfieithu	16:00 - 18:00
09.05.19	Parc Dewi Sant, Adeilad 2, Ystafell 5*	Saesneg	14:00 - 16:00

Deall data perfformiad ysgol

Dyddiad	Lleoliad	Iaith	Amser
19.09.18	Ysgol Gynradd Llandybie, Llandybie, SA18 3JB	Saesneg	18:30 - 20:30
16.10.18	Parc Dewi Sant, Adeilad 2, Ystafell 5*	Cymraeg	16:00 - 18:00
15.01.19	Ysgol Pen Rhos, Llanelli SA15 2NG	Saesneg	18:30 - 20:30
06.02.19	Canolfan Griffith Jones, San Clêr, SA33 4BT	Cymraeg gydag offer cyfieithu	14:00 - 16:00
09.05.19	Parc Dewi Sant, Adeilad 2, Ystafell 5*	Saesneg	16:00 - 18:00
12.06.19	Neuadd y Gwendraeth, Heol Cwmmawr, Drefach, SA14 7AA	Saesneg	18:00 - 20:00

* Parc Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3HB

Hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion

Dyddiad	Lleoliad	Iaith	Amser
13.09.18	Neuadd y Gwendraeth, Heol Cwmmawr, Drefach SA14 7AA	Cymraeg gydag offer cyfieithu	18:30 - 20:30
19.02.19	Parc Dewi Sant, Adeilad 2, Ystafell 7*	Saesneg	16:00 - 18:00

Diogelu

Dyddiad	Lleoliad	Iaith	Amser
26.09.18	Neuadd y Gwendraeth, Heol Cwmmawr, Drefach SA14 7AA	Saesneg	18:30 - 20:30
18.10.18	Neuadd y Gwendraeth, Heol Cwmmawr, Drefach SA14 7AA	Cymraeg	18:30 - 20:30

I archebu lle ar un o'r sesiynau hyfforddi uchod, anfonwch e-bost at llywodraethu@sirgar.gov.uk neu cysylltwch â ni dros y ffôn ar 01267 246667. Er mwyn hwyluso trefniadau, bydd y dyddiad cau ar gyfer archebion 5 diwrnod gwaith cyn y sesiwn hyfforddi.

Nodwch os gwelwch yn dda, os ydych yn archebu lle ar sesiwn a hysbysebwyd fel 'Cymraeg gydag offer cyfieithu', nodwch os fydd angen defnyddio offer cyfieithu arnoch chi. Oherwydd y costau dan sylw, os nad ydym wedi derbyn hysbysiad bod angen offer cyfieithu gan unrhyw un o'r mynychwyr, ni fydd offer cyfieithu yn cael ei ddarparu yn y sesiwn.

